Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Croft House**

**89 Queen Victoria Road**
**Llanelli**
**SA15 2TR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Croft House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | M&D Care Operations Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 12 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Tachwedd 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn wasanaeth dwyieithog, ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus yn Croft House. Mae'r tîm o staff yn hyrwyddo awyrgylch hamddenol ym mhob rhan o'r gwasanaeth, sy'n helpu'r bobl ac ymwelwyr i deimlo'n gyfforddus. Caiff y bobl eu hannog i wneud eu penderfyniadau eu hunain am sut i dreulio eu hamser.

Mae pob gweithiwr yn dangos gwybodaeth dda am y bobl sy'n cael cymorth. Mae'r tîm o staff brwdfrydig am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl ac maent yn sicrhau eu bod yn cael eu gwahodd i gymryd rhan lawn ym mhob trafodaeth am eu cymorth. Dywed y gweithwyr gofal eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu rheolwyr, a'u bod yn cael digon o hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau. Mae sianeli cyfathrebu da yn amlwg, a chaiff ansawdd y gofal y mae'r bobl yn ei gael ei fonitro mewn modd cadarn.

## Llesiant

Mae gan y bobl yn Croft House cymaint o reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ag y maent yn dymuno ei gael, ac maent yn gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r gweithwyr gofal yn gwahodd y bobl i gymryd rhan yn eu trefniadau cymorth. Mae pob unigolyn yn cwrdd â'i weithiwr allweddol bob mis i wneud cynlluniau ar gyfer ei fywyd cymdeithasol a thrafod unrhyw bryderon a all fod ganddo.

Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys dewisiadau personol a chefndir y bobl maent yn eu disgrifio. Mae'r rheolwr yn trefnu cyfarfodydd tŷ rheolaidd er mwyn i'r bobl drafod unrhyw faterion y maent am eu codi. Maent hefyd yn rhoi copi o ganllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth i bobl pan fyddant yn cyrraedd; mae'r canllaw hwn yn rhoi manylion am yr hyn y gallant ei ddisgwyl, yn ogystal â manylion am y broses gwyno pe bai angen iddynt ei defnyddio. Dywedodd un unigolyn wrthym, *"I know exactly who to talk to if I have a problem."* Mae gwasanaethau eirioli annibynnol ar gael i'r bobl pan fyddant am gael cymorth mewn perthynas â materion sy'n effeithio arnynt.

Mae'r bobl wedi ymlacio, yn gyfforddus ac yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Maent yn gwneud y pethau sy'n eu gwneud yn hapus, fel personoli eu hamgylchedd yn ôl eu diddordebau a'u hobïau. Mae pob unigolyn mor egnïol ag y mae'n dymuno bod. Mae gan y gweithwyr gofal gydberthnasau da â'r bobl ac maent yn gweithio ochr yn ochr â nhw mewn ffyrdd cadarnhaol, ac yn cael sgyrsiau hwyliog â nhw. Mae'r gweithwyr gofal yn gefnogol ac yn ymgysylltu â'r bobl mewn ffyrdd cadarnhaol, i'w hannog i gadw'n bositif ac yn iach. Dywed y bobl eu bod yn teimlo'n ddiogel, a bod y cyflogeion yn amddiffyn eu preifatrwydd a'u gwybodaeth bersonol bob amser. Mae'r gweithwyr gofal wedi bod drwy broses recriwtio drylwyr y darparwr. Mae'r uwch-aelodau o'r staff yn goruchwylio'r gweithwyr gofal er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y bobl fel y dylent. Mae'r holl weithwyr gofal yn derbyn cymorth a hyfforddiant a gallant gael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau er mwyn deall eu cyfrifoldeb i amddiffyn y bobl agored i niwed y maent yn eu cefnogi.

Mae'r cartref yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae nifer o aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg, a chynhaliodd y rheolwr gyfarfod asesu cychwynnol drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â chais yr unigolyn yn ddiweddar. Mae'r rheolwr yn hyrwyddo diwylliant Cymru ac yn trefnu i ddatganiad o ddiben a chanllaw ysgrifenedig y cartref fod ar gael yn ddwyieithog fel na fydd angen i bobl ofyn amdanynt.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau gofal yn disgrifio'r ffordd y mae'r tîm o staff yn galluogi'r bobl i fyw eu bywydau fel y dymunant, ac i fod mor annibynnol ag y gallant fod. Mae'r uwch-aelodau o'r staff yn cynnal asesiadau cychwynnol cyn i'r bobl symud i'w fflat ac maent yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth er mwyn sicrhau y gallant ddiwallu anghenion y bobl. Mae hyn yn broses barhaus, ac mae'r bobl yn cael eu hannog i ddod yn fwy annibynnol ac i symud ymlaen i ddilyn ffyrdd mwy annibynnol o fyw. Mae'r proffiliau un dudalen yn disgrifio'r hyn sy'n bwysig i'r bobl. Mae'r cynlluniau personol yn disgrifio anghenion cymorth pob unigolyn yn glir. Mae asesiadau o iechyd meddwl ac iechyd corfforol ac asesiadau risg cyfredol yn helpu'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r gweithwyr allweddol a'r uwch-aelodau o'r staff yn adolygu'r cofnodion gofal bob mis, neu'n amlach os bydd anghenion cymorth yn newid, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol.

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt ac sy'n eu gwneud yn hapus. Mae'r gweithwyr gofal yn frwdfrydig ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bob unigolyn. Mae'r gweithwyr gofal yn annog y bobl i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser. Caiff cynlluniau eu gwneud bob wythnos ond gellir eu haddasu wrth i ddewisiadau'r bobl newydd. Mae'r tîm o staff yn annog pob unigolyn i siopa drosto ef ei hun a choginio ei brydau ei hun, ond gall y bobl hefyd fanteisio ar gymorth y staff pan fydd yn well ganddynt wneud hynny. Mae'r bobl hefyd yn mynd i siopa ac yn ymweld â mannau lleol o ddiddordeb, yn gwylio gemau rygbi lleol, yn mynd i nofio, yn mynd â chŵn am dro ac yn ymweld â chlwb lleol i bobl â phroblemau iechyd meddwl. Aeth grŵp bach i fowlio yn ystod ein hymweliad. Dywedodd un unigolyn wrthym, *“I go where I want when I want.  I like the town and can use the car if I need to.”*

Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus am ddiogelu ac yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban. Maent yn hyderus i'w defnyddio os bydd angen ac yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â'r rheolwr neu'r Unigolyn Cyfrifol. Byddent yn cysylltu ag asiantaethau allanol hefyd, fel y swyddfa diogelu leol, pe baent yn teimlo bod angen gwneud hynny.

## Yr Amgylchedd

Ar y cyfan, mae'r bobl yn cael cymorth mewn amgylchedd addas. Mae'r bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hapus. Mae'n hawdd symud o gwmpas yr adeilad. Mae'r bobl yn byw yn eu fflatiau eu hunain ac yn gallu dewis cymdeithasu â'u ffrindiau yn y lolfa gymunedol neu'r gegin. Mae'r fflatiau yn fawr ac wedi'u personoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r bobl, gydag eitemau fel ornamentau, llenni a deunyddiau a lluniau. Mae pob fflat, a'r holl ardaloedd cymunedol, yn ddiogel, yn gynnes ac yn lân. Dangosodd un unigolyn ei ystafell gan ddweud *“It’s all here, Nice, isn’t it.”*

Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn. Mae pob unigolyn yn cofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Caiff cofnodion gofal personol y bobl eu storio'n electronig ac mae angen cyfrinair i'w hagor, felly dim ond cyflogeion awdurdodedig a gaiff eu gweld.  Caiff gwybodaeth bersonol a chyfrinachol arall nad yw ar gael yn electronig ei storio'n ddiogel mewn swyddfeydd.

Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli diogelwch a'r risg o heintiau. Mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd. Mae'r allanfeydd tân yn glir o unrhyw rwystrau ac mae cyfarwyddiadau clir i'w gweld yn y cartref sy'n dangos yr hyn y dylid ei wneud pe bai tân.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae gan y darparwr weledigaeth glir o'r cymorth y mae'n ei ddarparu, ac agwedd gadarnhaol tuag at bawb sy'n cael cymorth. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio'r cymorth y mae'r bobl yn ei gael ac yn dweud y cânt eu cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr yn y sefydliad. Mae archwiliadau misol yn monitro pob agwedd ar ofal y bobl, gan gynnwys meddyginiaeth, mesurau rheoli heintiau a chynlluniau cymorth. Caiff unrhyw faterion sy'n codi eu datrys yn brydlon. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn pe bai angen iddynt wneud hynny, ac maent yn hyderus y byddai'r darparwr yn gwrando arnynt pe baent yn gwneud cwyn.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn rhoi cyfle i'r gweithwyr gofal drafod eu gwaith a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Mae'r tîm rheoli wedi sefydlu system glir i bob cyflogai drafod unrhyw faterion y mae'n dymuno eu codi mewn cyfarfodydd goruchwylio bob tri mis. Mae'r bobl a'u perthnasau a'r holl gyflogeion yn cwblhau arolygon er mwyn gwneud sylwadau ar ansawdd y cymorth y maent yn ei gael. Caiff yr holl ganfyddiadau eu crynhoi mewn adroddiad ar ansawdd y gofal bob chwe mis, sy'n nodi'r holl welliannau arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth.

Ar y cyfan, mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Mae tîm o staff craidd yn adnabod y bobl yn dda ac yn gyfarwydd iddynt. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio: mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, dogfennau adnabod â llun a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae rhaglen sefydlu'r staff yn gysylltiedig â chanlyniadau dysgu unigol a 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.' Mae'r holl weithwyr gofal wedi cael yr hyfforddiant hanfodol diweddaraf. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o hyfforddiant penodol sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn eu cefnogi. Er enghraifft, cymorth ymddygiad cadarnhaol ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/01/2024